



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mynd i'r afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd yng Nghymru

Cynllun atodol Llywodraeth Cymru i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd 2017 – Data Interim ar Grynodiadau o NO₂ ar gyfer Traffyrdd a Chefnfyrdd

Medi 2019



Rhagair

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu cymunedau iachach ac amgylchedd gwell. Mae mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael yn flaenoriaeth sy'n cael ei adlewyrchu yn ein strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb'. Ym mis Tachwedd 2018 gwnaethom gyhoeddi ein cynllun atodol gan Lywodraeth Cymru i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid (NO₂) 2017 gan nodi sut y byddwn yn lleihau crynodiadau o NO₂ o amgylch ffyrdd lle y bo'r lefelau uwchben y terfynau cyfreithlon.

Mae'r cynllun sy'n seiliedig ar Adran 7.6 (Camau Gweithredu Ychwanegol yng Nghymru) cynllun 2017 y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd, yn nodi sut y byddwn yn cydymffurfio cyn gynted â phosibl gyda'r gwerthoedd terfyn ar gyfer NO₂. Cyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd (2008/50/EC) a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 sy'n pennu'r gwerthoedd hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau'r lefelau cyfredol o grynodiadau o NO₂ ar rwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd Llywodraeth Cymru yn y pum safle a nodir yn y cynllun. Mae'n darparu'r data o fis Rhagfyr 2017 i fis Gorffennaf 2019 a'r naratif o ran y materion parhaus sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a Gweinidogion o ran y pum safle a nodir ar y rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd ynghyd â dulliau o helpu i leihau'r lefelau NO₂ ymhellach.

Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â'r canlynol:-

Cynllun atodol Llywodraeth Cymru i Gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau o nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd 2017, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018:-

<https://llyw.cymru/cynllun-ansawdd-aer>

Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Adroddiadau Cam 1, 2 a 3 ar gyfer Mynd i'r Afael â Chrynodiadau o Nitrogen Deuocsid ar y safleoedd Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd yng Nghymru:-

<https://llyw.cymru/mynd-ir-afael-chrynodiadau-nitrogen-deuocsid-ar-ymylon-ffyrdd-yng-nghymru>

<https://llyw.cymru/mynd-ir-afael-chrynodiadau-nitrogen-deuocsid-yng-nghymru-cam-3-weltag>

Cynnwys

Rhagair

1.0 Crynodeb o Ddata Interim ar Gynodiadau o NO₂ ar gyfer Traffyrdd a Chefnffyrdd

Atodiadau

Atodiad A – Data Mapio Hinsawdd Llygredd DEFRA

Atodiad B – Data Monitro Tiwbiau Tryledu Interim

Atodiad C – Data Cyflymder Interim

Atodiad D – Graffiau

1.0 Crynodeb o Ddata Interim ar Grynodiadau o NO₂ ar gyfer Traffyrdd a Chefnffyrdd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r crynodiadau o NO₂ yn y pum safle ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd a chafodd ei lunio yn dilyn yr ymrwymiad i gyflwyno canlyniadau fel y nodir yng nghynllun atodol Llywodraeth Cymru i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid wrth ymyl y ffordd 2017, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018.

Fel y nodir yn y cynllun atodol, mae'r pum safle lle y mae'r crynodiadau o NO₂ uwchben 40 µg/m³, sef y terfyn a nodir yng Nghyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd (2008/50/EC) a Rheoliadau Safonau Ansawdd (Cymru) 2010 fel a ganlyn:-

1. yr A494 yng Nglannau Dyfrdwy (Parth Gogledd Cymru);
2. yr A483 ger Wrecsam (Parth Gogledd Cymru);
3. yr M4 rhwng Cyffordd 41 a 42 ym Mhort Talbot (Abertawe a Pharth De Cymru);
4. yr M4 rhwng Cyffordd 25 a 26 yng Nghasnewydd (Parth De Cymru);
5. yr A470 rhwng Glan-bad a Phontypridd (Parth De Cymru).

Ym mis Mehefin 2018, cafodd terfynau cyflymder 50mya eu cyflwyno yn y pum safle oherwydd ystyriwyd y byddai'r rhain yn sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddeb yr UE ar grynodiadau o NO₂ cyn gynted â phosibl. Cafodd Mesurau Rhagofalus a Ddargedwir eu cynnwys yn y cynllun. Er hynny byddai'r mesurau hyn wedi cymryd mwy o amser i'w gweithredu. Mae'r Mesurau Rhagofalus a Ddargedwir wedi'u datblygu ers mis Tachwedd 2018. Fodd bynnag, mae'r amserlen i weithredu'r mesurau hyn yn parhau yn unol â'r hyn a nodir yn y cynllun.

Adroddir am y data canlynol yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn -

- Data Mapio Hinsawdd Llygredd DEFRA (Gwybodaeth a fodelwyd)
- Data Monitro Tiwbiau Tryledu Interim (Gwybodaeth wrth ymyl y ffordd)
- Data Cyflymder Interim

Dangosir y gynrychiolaeth ddaearyddol briodol o'r data yn Atodiad D.

Gellir tynnu'r pwyntiau canlynol o'r data interim:

- Mae data llinell sylfaen y model Mapio Hinsawdd Llygredd ar gyfer 2017/18 yn parhau i ddangos crynodiadau o NO₂ sy'n is na'r rhai wrth ymyl y ffordd. Nid oedd hyn yn syndod oherwydd y tynnwyd sylw ato yn y gwaith adrodd ar Gam 3 WeITAG;
- Er bod y data wrth ymyl y ffordd yn wahanol i'r data yn y model Mapio Hinsawdd Llygredd, mae'r dangosyddion cychwynnol yn gadarnhaol gan fod y crynodiadau o NO₂ wedi lleihau yn y pum safle o fis Rhagfyr 2017 i fis Gorffennaf 2019;
- Mae proffiliau cyflymder yn dangos bod cyflymderau cymedrig uwchben 50mya ar gyfer pob un o'r pum safle. Fodd bynnag, gan fod y Camerâu Cyflymder Cyfartalog bellach ar waith mewn pedwar o'r safleoedd, bydd disgwyl i'r cydymffurfiaeth wella gyda'r terfynau cyflymder 50mya. Mae gan yr M4 yng Nghasnewydd gamerâu cyflymder yn y fan a'r lle sydd ar waith fel rhan o'r terfynau cyflymder newidiol;
- Yn seiliedig ar y data sydd ar gael ac er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru adrodd ar derfynau NO₂ Cyfarwydddeb yr UE ac i wneud sylwadau pellach ar effeithiolrwydd y terfyn cyflymder 50mya, mae angen casglu data NO₂ ychwanegol a addaswyd yn ôl ffactorau tuedd cenedlaethol ar gyfer blwyddyn galendr 2019. Bydd hyn yn caniatáu i ddata 'tebyg at ei debyg' gael ei gymharu â blwyddyn galendr 2018;
- O'r graffiau, mae gan bob safle duedd gadarnhaol bod y crynodiadau o NO₂ yn lleihau ar bob set data;
- Mae'r sefyllfa'n dal i fod yn gymhleth gan fod ansawdd aer yn sensitif i sawl peth gan gynnwys y tywydd/effeithiau tymhorol, llif traffig gan gynnwys maint, cyflymderau a chymysgedd y fflyd;
- Tan fod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chasglu a'r duedd yn parhau i fod yn gadarnhaol, mae'n rhy gynnar llunio casgliadau pendant neu wneud unrhyw argymhellion eraill i ddileu'r mesurau sydd naill ai wedi'u gweithredu neu sydd ar y gweill yn y pum safle;
- Er bod y gostyngiad dangosol mewn crynodiadau o NO₂ yn newyddion cadarnhaol ar gyfer y pum safle, yn arbennig yr A483 yn Wrecsam, yr A494 yng Nglannau Dyfrdwy a'r M4 ym Mhort Talbot, fel y dangoswyd yn y cynllun atodol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys parhau i ddatblygu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Mesurau Rhagofalus a Ddargedwir;
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau cydymffurfiaeth cyn gynted â phosibl ac felly bydd pob mesur a gyflwynwyd yn y pum safle yn cael eu cadw tan fod data pellach ar gael i'w adolygu.

Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020 ar y set nesaf o ddata ar gyfer crynodiadau o NO₂ ar gyfer blwyddyn galendr 2019 wedi'i addasu yn ôl ffactorau tuedd cenedlaethol. Bydd diweddariad mwy cynhwysfawr yn yr adroddiad hwn ar y cynnydd a wnaed gyda'r Mesurau Rhagofalus a Ddargedwir.

Atodiadau

Atodiad A

Data Mapio Hinsawdd Llygredd DEFRA

Cafodd data a gasglwyd gan y model Mapio Hinsawdd Llygredd DEFRA eu defnyddio yn ystod proses Arfarnu Trafnidiaeth WeITAG Llywodraeth Cymru a helpu i nodi'r mesurau i'w gweithredu yn y pum safle. Mae'r tabl isod yn nodi'r crynodiadau o NO₂ a ragfyngwyd ac a ddefnyddiwyd i lywio gwaith Arfarnu WeITAG.

Crynodiadau llinell sylfaen o NO₂ a ragfyngwyd gan y model Mapio Hinsawdd Llygredd yn y pum safle a gymerwyd o'r cynllun (gwybodaeth data model 2017):

Darn o'r Ffordd	Lleoliad y Safle	Crynodiadau Llinell Sylfaen o NO ₂ a Ragfyngwyd (µg/m ³) 2017					
		2017	2018	2019	2020	2021	2022
A483 Wrecsam	Wrecsam	41.2	39.3	37.6	35.7	33.5	-
A494 Glannau Dyfrdwy	Aston Hill	50.3	47.9	45.7	43.2	40.4	37.8
	Cyffordd yr A550 – Cyffordd A548	48.4	46.1	44.1	41.7	39.1	36.7
	Cyffordd yr A458 Shotwick Rd	41.9	39.8	37.9	35.9	33.7	31.6
A470 Pontypridd	Pontypridd	47.6	45.7	43.9	41.7	39.1	-
	Glan-bad	41.8	40.1	38.5	36.6	34.3	-
M4 Casnewydd – Cyffordd 25-26	I'r gorllewin o Afon Wysg	48.5	46.1	44.0	41.7	39.0	-
	I'r dwyrain o Afon Wysg	40.8	38.9	37.2	35.3	33.1	-
M4 Cyffordd Port Talbot – 41-42	Cyffordd 41-42	45.2	43.2	41.4	39.4	36.9	-

Ers cyhoeddi'r cynllun atodol, mae DEFRA wedi cyhoeddi crynodiadau llinell sylfaen o NO₂ y model Mapio Hinsawdd Llygredd wedi'u diweddarau ar gyfer 2018 ac mae'r rhain yn cael eu nodi yn y tabl drosodd.

Crynodeiadau llinell sylfaen o NO₂ a ragfynegyd gan y model Mapio Hinsawdd Llygredd yn y pum safle wedi'u diweddarau gyda gwybodaeth model 2018:

Darn o'r Ffordd	Lleoliad y Safle	Crynodeiadau Llinell Sylfaen o NO ₂ a Ragfynegyd (µg /m ³) 2018					
		2017	2018	2019	2020	2021	2022
A483 Wreccsam	Wreccsam	40.2	-	37.5	35.7	33.5	31.4
A494 Glannau Dyfrdwy	Aston Hill	49.4	-	45.8	43.3	40.6	38.0
	Cyffordd yr A550 – Cyffordd A548	47.3	-	43.8	41.5	39.0	36.6
	Cyffordd yr A458 Shotwick Rd	40.5	-	37.3	35.4	33.3	31.2
A470 Pontypridd	Pontypridd	46.6	-	43.9	41.7	39.3	36.9
	Glan-bad	41.1	-	38.7	36.8	34.6	32.5
M4 Casnewydd – Cyffordd 25-26	I'r gorllewin o Afon Wysg	50.4	-	46.7	44.2	41.4	38.8
	I'r dwyrain o Afon Wysg	41.4	-	38.3	36.4	34.3	32.2
M4 Port Talbot – Cyffordd 41-42	Cyffordd 41-42	44.9	-	42.0	40.0	37.6	35.3

Mae'r crynodeiadau wedi amrywio ychydig ac mae'r data cydymffurfiaeth wedi cynyddu yn yr wybodaeth model data Mapio Hinsawdd Llygredd mewn dau o'r safleoedd. Mae cydymffurfiaeth llinell sylfaen yn y ddau safle ar yr M4 wedi cynyddu uwchlaw 40µg/m³ yn 2021 ar gyfer Casnewydd ac yn 2020 ar gyfer Port Talbot. Felly mae'r wybodaeth yn y model newydd yn dangos heb weithredu unrhyw rai o'r mesurau, fod cydymffurfiaeth llawn yn y safle wedi'i ragfynegi fel a ganlyn:

- yr A483 yn Wreccsam – erbyn diwedd 2018 (dim newid)
- yr A494 yng Nglannau Dyfrdwy – erbyn diwedd 2022 (dim newid)
- yr A470 ym Mhontypridd – erbyn diwedd 2021 (dim newid)
- yr M4 yng Nghasnewydd – erbyn diwedd 2022 (wedi'i ymestyn flwyddyn)
- yr M4 ym Mhort Talbot – erbyn diwedd 2021 (wedi'i ymestyn flwyddyn)

Mae'r rheswm dros y newidiadau uchod yn bennaf o ganlyniad i ddiweddariadau i'r data cyfrif traffig a ddefnyddir yn y model a gynhyrchir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Adran Drafnidiaeth.

Er bod y data hyn yn allweddol i ddatblygu'r mesurau ar gyfer y cynllun ac yn cael eu defnyddio yn y broses WeITAG, ystyrir bod y data wrth ymyl y ffordd yn fwy cynrychioliadol ar gyfer y penderfyniadau a wneir wrth symud ymlaen.

Atodiad B

Data Monitro Tiwbiau Tryledu Interim

Mae'r crynodiadau o NO₂ wrth ymyl y ffordd ymhob un o'r pum safle wedi'u cofnodi drwy gyfres o diwbiau tryledu triphlyg ers canol mis Rhagfyr 2017 ac mae'r data wedi'u defnyddio i helpu i gadarnhau'r effaith y mae'r mesurau wedi'u cael ar grynodiadau o NO₂. Er mwyn helpu i sicrhau darlun mwy cywir o grynodiadau, cafodd dadansoddwyr dull cyfeirnod parhaus eu hychwanegu at y tiwbiau hyn ym mis Awst 2019. Nid yw'r data o'r dadansoddwyr hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ond byddant yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau dilynol.

Mae'r tabl isod yn nodi'r crynodiadau o NO₂ a gofnodwyd drwy'r tiwbiau tryledu yn ystod y cyfnod o chwe mis cyn cyflwyno'r terfynau cyflymder 50mya ynghanol mis Mehefin 2018. Mae'r data yn gyfartalog ar gyfer y flwyddyn ac wedi'u cywiro ar gyfer amrywiadau tymhorol gan ddefnyddio ffactorau addasu tuedd cenedlaethol. Dim ond y ffactorau cenedlaethol a weithredwyd ar gyfer y data chwe mis, gan nad oedd monitor parhaus De Cymru wedi'i raddnodi.

Mae ffactorau addasu tuedd yn cael eu defnyddio wrth addasu'r canlyniadau a geir drwy'r dulliau tiwbiau tryledu. Mae rhagor o wybodaeth am yr angen i addasu ar gael ar: <https://laqm.defra.gov.uk/bias-adjustment-factors/bias-adjustment.html>

Crynodiadau o NO₂ cyn y terfynau cyflymder 50mya (6 mis – 18 Rhagfyr 2017 i 4 Mehefin 2018):

Math o Safle	Crynodiad o NO ₂ cyfartalog 6 mis (µg/m ³) gan ddefnyddio ffactor addasu tuedd cenedlaethol
A483 Wrecsam – Gogledd Cymru	
Wrth ymyl y ffordd	54.1
Cefndir Trefol	17.1
A494 Glannau Dyfrdwy – Gogledd Cymru	
Wrth ymyl y ffordd	43.6
Cefndir Trefol	19.7
A470 Pontypridd – De Cymru	
Wrth ymyl y ffordd	60.4
Cefndir Trefol	18.7
M4 Casnewydd – De Cymru	
Wrth ymyl y ffordd	64.0
Cefndir Trefol	24.7
M4 Port Talbot – De Cymru	
Wrth ymyl y ffordd	52.2

Math o Safle	Crynodeiad o NO ₂ cyfartalog 6 mis (µg/m ³) gan ddefnyddio ffactor addasu tuedd cenedlaethol
Cefndir Trefol	14.1

Mae'r tabl isod yn nodi'r crynodeiadau o NO₂ a gofnodwyd yn ystod y cyfnod o 12 mis yn dilyn gweithredu'r terfynau cyflymder 50mya ynghanol mis Mehefin 2018. Mae'r data hyn wedi'u cywiro gan ddefnyddio addasiad tuedd lleol gan nad yw'r data yn cwmpasu blwyddyn galendr. At hynny, er bod y gronfa ddata genedlaethol yn cynnwys rhywfaint o ddata a gasglwyd o amlygiadau misol, mae'r gwaith monitro lleol wedi'i wneud drwy gyfnewid y tiwbiau tryledu yn unig (mae'r ffigurau addasiad tuedd cenedlaethol mewn teip italig wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu).

Mae'r tabl hefyd yn nodi'r crynodeiadau o NO₂ ar gyfer blwyddyn galendr 2018 a gywirwyd gan ddefnyddio'r addasiad tuedd lleol. Mae'r data wedi'u darparu er mwyn cymharu ac mae'n dangos y ffactor addasu wrth iddo gael ei weithredu i'r safleoedd Cefndir Trefol (sy'n llai tueddol o brofi newidiadau o ran NO₂) sy'n cynhyrchu crynodeiadau tebyg neu unfath.

Tabl yn dangos y crynodeiadau o NO₂ gyda therfynau cyflymder 50mya ar waith (12 mis – mis Gorffennaf 2018 i fis Gorffennaf 2019).

Math o Safle	Crynodeiad o NO ₂ cymedrig, mis Gorffennaf 2018 – mis Gorffennaf 2019 ¹ (µg/m ³) gan ddefnyddio ffactor addasu tuedd lleol (0.80) ²	Crynodeiad o NO ₂ cymedrig blyneddol, mis Ionawr – mis Rhagfyr 2018 (µg/m ³) gan ddefnyddio ffactor addasu tuedd lleol (0.81) ³	Crynodeiad o NO ₂ cyfartalog 12 mis, mis Gorffennaf 2018 – mis Gorffennaf 2019 (µg/m ³) gan ddefnyddio ffactor addasu tuedd cenedlaethol (0.89) ⁴
A483 Wrecsam – Gogledd Cymru			
Wrth ymyl y ffordd	39.7	46.1	44.2
Cefndir Trefol	13.8	15.2	15.4
A494 Glannau Dyfrdwy – Gogledd Cymru			
Wrth ymyl y ffordd	35.0	38.6	39.0
Cefndir Trefol	16.1	17.5	17.9
A470 Pontypridd – De Cymru			
Wrth ymyl y ffordd	47.9	52.2	53.3
Cefndir Trefol	16.5	16.8	18.4
M4 Casnewydd – De Cymru			
Wrth ymyl y ffordd	55.3	58.2	61.5
Cefndir Trefol	20.9	21.5	23.2

¹Cyfnodau monitro tiwbiau tryledu 8-20, tiwbiau agored o 2 Gorffennaf 2018 – 1 Gorffennaf 2019

²Ffactor tuedd lleol o diwbiau a gyd-leolwyd yn safle monitro parhaus Wrecsam ar gyfer y cyfnod hwn

³Ffactor tuedd lleol o diwbiau a gyd-leolwyd yn safle monitro parhaus Wrecsam ar gyfer y flwyddyn galendr

⁴ O Daenlen v06/19 yn Ffigur 1

M4 Port Talbot – De Cymru			
Wrth ymyl y ffordd	40.4	44.5	45.0
Cefndir Trefol	11.5	12.2	12.8

Atodiad C

Data Cyflymder Interim

Cafodd terfynau cyflymder 50mya eu gweithredu'n wreiddiol ym mhedwar o'r pum safle ynghanol mis Mehefin 2018. Yr un eithriad yw'r M4 yng Nghasnewydd lle roedd terfyn cyflymder 50mya wedi'i osod dros nos (21:00 i 06:00) drwy'r terfyn cyflymder newidiol ym mis Mai 2018. Yn dilyn cyhoeddi'r cynllun atodol, mae'r terfynau cyflymder 50mya hyn wedi parhau mewn grym. Unwaith eto, yr un eithriad yw'r M4 yng Nghasnewydd lle roedd terfyn cyflymder uchafswm o 50mya wedi'i osod bob amser drwy'r terfyn cyflymder newidiol ym mis Chwefror 2019 ac sy'n destun gwaith monitro cyflymder drwy gamerâu cyflymder yn y fan a'r lle.

Tabl yn dangos crynodeb o gyflymderau traffig cymedrig ymhob lleoliad ar ôl eu gweithredu'n wreiddiol o fis Mehefin 2018 i fis Awst 2019:



Lleoliad	Cyfnod amser	Cyflymder cymedrig
A483 Wrecsam	24 awr	57mya
A494 Glannau Dyfrdwy	24 awr	58mya
A470 Pontypridd	24 awr	58mya
M4 Cyffordd 41 a 42, Port Talbot	24 awr	55mya
M4 Cyffordd 25a a 26, Casnewydd	24 awr	52mya*
Terfyn cyflymder o uchafswm o 50mya wedi'i osod dros nos	21:00 i 00:00	53mya*
o fis Mai 2018 i fis Mawrth 2019	00:00 i 06:00	53mya*
M4 Cyffordd 25a a 26, Casnewydd	24 awr	51mya*
Terfyn cyflymder o uchafswm o 50mya wedi'i osod i weithredu bob amser		
Chwefror 2019 ymlaen		

**SYLWER – Mae cyflymderau cymedrig yn cyfrif achlysuron pan allai'r terfyn cyflymder newidiol hefyd fod wedi'i osod islaw 50mya yn awtomatig. Nid yw'n bosibl darparu data ar gyfer yr achlysuron hynny pan oedd terfyn cyflymder 50mya yn unig yn cael ei ddangos.*

Atodiad D

Graffiau


Mae'r graffiau canlynol yn dangos y setiau data amrywiol yn y pum safle:



A470 Pontypridd



M4 Casnewydd



M4 Port Talbot

